OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 897

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022

**Galluedd plant** E+W

**20.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae paragraff (3) yn gymwys i blentyn a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2022.

(2) Nid oes dim yn yr erthygl hon sy'n gymwys i berson pan fydd y person hwnnw yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol.

(3) Nid yw dyletswydd ym mharagraff (4) na'r pŵer ym mharagraff (5) yn gymwys os yw'r person priodol yn ystyried nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(4) Y dyletswyddau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yw—

(a) y ddyletswydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i blentyn yn erthyglau 9(2) **[**[F1], 9A(2),**]** a 10(2);

(b) y ddyletswydd i roi hysbysiad yn dilyn cais gan blentyn o dan erthygl 11;

(c) y ddyletswydd i roi copi o'r cynllun datblygu unigol i blentyn o fewn 12 wythnos yn erthygl 12(1).

(5) Y pŵer y cyfeirir ato ym mharagraff (3) yw'r pŵer i roi hysbysiad ADY i blentyn yn erthygl 13.

(6) Pan fo paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â dyletswydd ym mharagraff (4)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 5 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

(7) Pan fo paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â dyletswydd ym mharagraff (4)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 6 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn ergl. 20(4)(a) wedi ei fewnosod (21.8.2023) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchmynion Cychwyn Rhif 5, Rhif 6, Rhif 8, Rhif 13 a Rhif 14) 2023 (O.S. 2023/932), **ergl. 6(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 20 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022, Adran 20.